



Teitl y gweithgaredd:	Nadolig Plentyn yng Nghymru
Disgrifiad:	Rhagfynegi stori o'r dudalen gyntaf gan ddefnyddio sgiliau holi.
Blynyddoedd ysgol:	CA2
Cysylltiad â'r FfLIRh:	<b>Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth</b> <b>* Strategaethau Darllen</b> BI3: <ul style="list-style-type: none"><li>• nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun</li></ul> BI4: <ul style="list-style-type: none"><li>• nodi'n gywir y prif syniadau a'r wybodaeth ategol mewn testunau</li></ul> <b>Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd</b> <b>* Darllen a deall</b> BI5: <ul style="list-style-type: none"><li>• dehongli ystyr nad yw wedi'i ddatgan yn bendant</li></ul> BI6: <ul style="list-style-type: none"><li>• dehongli syniadau nad ydynt wedi'u datgan yn bendant</li></ul>
Testun Dylan Thomas	<i>Nadolig Plentyn yng Nghymru</i>
Offer angenrheidiol:	<ul style="list-style-type: none"><li>• Dechrau'r testun: "Yn y blynyddoedd hynny ... a'r dynion tân."</li><li>• Swigod holi cwestiynau</li></ul>
Trefn a awgrymir:	<ul style="list-style-type: none"><li>• Y dysgwyr yn symud y dodrefn fel y gallant eistedd ar gadeiriau mewn cylch.</li><li>• Gosodwch y swigod holi cwestiynau yn y canol ar y llawr.</li><li>• Darllenwch y dudalen gyntaf gyda'ch gilydd (Peidiwch â dweud beth yw teitl y llyfr). Trafodwch beth mae'r testun yn ei ddweud wrthon ni. Beth rydyn ni'n ei wybod? Beth dydyn ni ddim yn ei wybod?</li><li>• Y dysgwyr yn defnyddio pob un o'r 'Geiriau cwestiwn' i holi cwestiynau am y stori. (Gan feddwl am beth allai'r stori fod. Pwy sy'n adrodd y stori? ac ati.) Y dysgwyr yn codi a dal eu swigen holi cwestiynau ar ôl iddynt rannu eu cwestiwn.</li><li>• Gall y dysgwyr geisio ateb cwestiynau aelodau eraill y dosbarth wrth fynd yn eu blaenau.</li><li>• Lluniwch fap meddwl o gynnwys y stori a rhannu posibiliadau.</li></ul>
Gweithgareddau estyn:	Defnyddiwch ap <i>Poppet</i> neu <i>Simple mind</i> i lunio map meddwl ar yr iPad. Gellid gwneud yr un gweithgaredd holi/rhagfynegi gan ddefnyddio'r ddelwedd o'r clawr blaen neu ddelweddau o dudalennau cyntaf y llyfr.
Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill:	Gwaelod Cyfnod Allweddol 2 - Creu map meddwl i'r dosbarth, gan rannu meddyliau a syniadau â'r dosbarth.